# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer tendrau caffael

Gwybodaeth am y polisi preifatrwydd mewn perthynas â thendrau caffael, pam fod angen y data arnom ni, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud â'r data a'ch hawliau.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

## Pa wybodaeth sydd gennym ni?

Gall yr wybodaeth bersonol sydd gennym ni amdanoch chi gynnwys:

- enw
- cyfeiriad e-bost
- CV (gan gynnwys cymwysterau, sgiliau/arbenigedd, hanes cyflogaeth, rôl cwmni)
- lleoliad
- gradd/teitl swydd

## O ble'r ydym ni'n cael yr wybodaeth hon?

Mae'r ASB yn cael yr wybodaeth hon gan eich cyflogwr.

## Pam mae angen yr wybodaeth hon arnom ni?

Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn gallu gwerthuso cynigion tendro, a gyflwynir gan eich cyflogwr sy'n cynnig cyflenwi ein gofynion ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Gwnawn hyn yn unol â'n rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny ac mae'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom ni neu er budd y cyhoedd. Ni fyddwn ni'n casglu unrhyw ddata personol gennych chi nad ydym ni ei angen.

## Sut a ble rydym ni'n storio'ch data a gyda phwy y gallwn ni ei rannu

Dim ond cyhyd ag y bo hynny'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau hyn y byddwn ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n cadw'r wybodaeth am 6 mlynedd wedi iddi ddod i law.

At ddibenion ymrwymiad tryloywder y Llywodraeth, efallai y bydd gofyn i ni gyhoeddi data (yn amodol ar olygiadau (*redactions*) y gofynnwyd amdanynt dan eithriadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i adran Sut a ble rydym ni'n storio'ch data a gyda phwy y gallwn ei rannu ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Trosglwyddiadau rhyngwladol

I gael rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau rhyngwladol, ewch i adran Trosglwyddiadau Rhyngwladol ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (UE)

I gael rhagor o wybodaeth am Hysbysiad Preifatrwydd Dinasyddion yr UE, ewch i adran Dinasyddion yr UE ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Eich hawliau

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau, ewch i adran Eich hawliau ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, eich gwybodaeth bersonol neu unrhyw gwestiynau ar ein defnydd o'r wybodaeth, anfonwch e-bost at ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB, sef Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod.